Senedd Cymru

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru

Chwefror 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddHinsawdd**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru

Chwefror 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion:** ..... **7**

**1. Cyflwyniad** ..... **8**

Ein dull ..... 8

**2. Sut mae Dŵr Cymru yn perfformio?** ..... **9**

Ynglŷn â Dŵr Cymru ..... 9

Pwy sy'n goruchwylio perfformiad Dŵr Cymru? ..... 9

Yr Adroddiadau perfformiad diweddaraf ..... 10

Cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad ..... 11

Cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol i wella perfformiad ..... 12

Ein barn ni ..... 17

Argymhellion ..... 20

**3. Pryder cyhoeddus parhaus ynghylch gollyngiadau carthion** . **22**

'Gollwng carthion heb eu trin yn anghyfreithlon' ..... 22

Camau gweithredu parhaus i leihau effaith gorlifoedd storm ..... 22

Tystiolaeth gan gyfranwyr ..... 24

Ein barn ni ..... 28

Argymhellion ..... 30

**Atodiad 1: Sesiwn dystiolaeth lafar** ..... **32**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae’r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr yn wynebu argyfwng. Yn dilyn blynyddoedd o danfuddsoddi mewn seilwaith sy’n heneiddio, dyledion cynyddol i rai o gwmnïau mwyaf Lloegr, a thanberfformiad yn dod yn norm yn hytrach nag yn eithriad, mae dyfodol y sector yn fwy ansicr nag erioed

Mae statws ‘nid-er-elw’ Dŵr Cymru yn golygu bod y cwmni wedi osgoi rhywfaint o’r feirniadaeth chwyrn a gafodd lawer o’i gymheiriaid sydd mewn dwylo preifat ac mewn dyled. Fodd bynnag, mae adroddiadau perfformiad diweddar yn dangos mai prin y mae’r cwmni wedi gwneud unrhyw gynnydd o ran cyflawni ar gyfer ei gwsmeriaid a'r amgylchedd. Llygredd, gollyngiadau, ansawdd dŵr yfed a thoriadau cyflenwad yw dim ond detholiad o'r problemau y mae Dŵr Cymru yn ei chael hi'n anodd ymdopi â nhw. Ychwanegwch at hyn y dicter cynyddol ymhlith y cyhoedd ynghylch gollwng carthion mewn afonydd a dim ond un casgliad y gellid dod iddo – mae angen i Ddŵr Cymru wella ei berfformiad o ddifrif.

Nid yw ond yn deg cydnabod y pwysau sy'n wynebu'r sector dŵr. Mae achosion o dywydd a thymheredd eithafol sy'n deillio o newid hinsawdd yn cael effaith ddinistriol ar system dŵr a charthffosiaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, gyda’r disgwyl y bydd effeithiau newid hinsawdd yn gwaethygu dros y blynyddoedd i ddod, mae angen i Ddŵr Cymru ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy hirdymor sy'n fforddiadwy i gwsmeriaid. Mae'n dasg heriol, ond mae'n un y mae'n rhaid i Ddŵr Cymru ymgymryd â hi.

Nid yw cynyddu biliau cwsmeriaid byth i’w groesawu - yn enwedig yn ystod argyfwng costau byw. O gofio’r angen dirfawr am fuddsoddiad mewn seilwaith, does dim dianc rhag biliau uwch, yn anffodus. Bydd cwsmeriaid, yn gwbl briodol, yn disgwyl mwy am eu harian.

Wrth i’r cyhoedd a gwleidyddion barhau i graffu ar y sector dŵr, nid oes lle i laesu dwylo. Rhaid i Ddŵr Cymru weithio'n galetach ac yn gyflymach i ddychwelyd at arwain y diwydiant o ran perfformiad amgylcheddol - rhywbeth y mae eisoes wedi dangos ei fod yn gallu ei wneud. Rhaid i’r cwmni gymryd camau breision i gael gwared ar y label annymunol o fod ar ei hôl hi o ran perfformiad cyffredinol, a gorau po gyntaf y mae’n gwneud hynny. Byddai unrhyw beth llai yn annerbyniol.

Mae ein hadroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion i Ddŵr Cymru a'i reoleiddwyr sydd â’r nod o wella perfformiad y cwmni a sicrhau gwell atebolrwydd. Rydym yn disgwyl i’r holl randdeiliaid perthnasol ymateb yn gadarnhaol ac yn bendant i'n hargymhellion.



**Llyr Gruffydd AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai Dŵr Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda diweddariad ar y cynnydd tuag at gyflawni ei gynllun ymrwymiad gwasanaeth sy'n ofynnol gan Ofwat................................Tudalen 20

**Argymhelliad 2.** Dylai Dŵr Cymru esbonio sut mae'n cynllunio yn erbyn pwysau hinsawdd yn y dyfodol i liniaru'r risg o ddigwyddiadau llygredd difrifol megis y rhai a ddigwyddodd yn ystod y sychder a'r tymheredd uchel a gafwyd yn 2022. ..........................................................................................................................Tudalen 20

**Argymhelliad 3.** Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i osod targed mwy ymestynnol ar gyfer lleihau achosion o lygredd erbyn 2030 na'r targed presennol o 24%. Dylai hefyd ymrwymo i uchelgais o ddim achosion o lygredd yn yr amser byrraf posibl, gyda thargedau'r dyfodol yn adlewyrchu urhyw waharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig..........................................................................................................Tudalen 20

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno gwaharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig cyn gynted â phosibl. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y cyd ar waharddiad arfaethedig ac ar yr amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gfer cyflwyno gwaharddiad yng Nghymru. ..........................................................................................................................Tudalen 20

**Argymhelliad 5.** Dylai Dŵr Cymru ddarparu manylion ei drefniadau llywodraethu mewnol a dangos sut maent yn cael eu defnyddio i ddwyn swyddogion gweithredol cwmnïau i gyfrif ac i ysgogi gwelliannau perfformiad. Yn benodol, dylai Dŵr Cymru egluro rôl aelodau Glas Cymru o fwn ei strwythur llywodraethu, ymateb yr aelodau i berfformiad diweddar Dŵr Cymru, a'r camau y mae'r aelodau'n eu cymryd i sicrhau gwelliannau. ............................................Tudalen 20

**Argymhelliad 6.** Dylai Ofwat egluro a yw ei system adennill cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad yn berthnasol i Dŵr Cymru, a sut, o ystyried ei statws 'nid-er-elw'. .......................................................................................................................... Tudalen 21

**Argymhelliad 7.** Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i wneud gwelliannau o'r naill flwyddyn i'r llall ar ei aliniad presennol o 80% o'r cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad a ddyfarnwyd i weithredwyr cwmnïau gyda pherfformiad cyffredinol yn cael ei ddarparu i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Dylai hefyd ymrwymo i uchelgais i gyflawni aliniad o 100% yn yr amser byrraf posibl........................ Tudalen 21

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Dŵr Cymru yn gwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru a rhai ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Mae'n gwasanaethu dros dair miliwn o bobl ac, ers 2001, mae wedi bod yn eiddo i Glas Cymru, sef cwmni un pwrpas a ffurfiwyd i brynu, ariannu a rheoli Dŵr Cymru.

**2.** Yn dilyn adroddiadau o ddirywiad ym mherfformiad Dŵr Cymru a'r sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar am 'ollyngiadau anghyfreithlon o garthffosiaeth heb ei drin' o nifer o'i Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff ('GTDG'), cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd â darn byr o waith i ystyried y materion hyn a materion cysylltiedig.

## Ein dull

**3.** Ar 9 Tachwedd 2023, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda chynrychiolwyr Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ('CNC') ac Ofwat. Gellir gweld manylion y rhain ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**4.** Hoffem ddiolch i'r holl sefydliadau am eu hymgysylltiad parhaus â'r Pwyllgor yn y maes polisi hwn.

# 2. Sut mae Dŵr Cymru yn perfformio?

## Ynglŷn â Dŵr Cymru

**5.** Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am gynnal y rhwydwaith dŵr a charthffosydd, gan sicrhau bod digon o gapasiti a bodloni rhwymedigaethau deddfwriaethol ac amgylcheddol. Mae ei sylfaen asedau yn helaeth, gyda thros 36,000km o garthffosydd a 27,000km o brif bibellau dŵr, dros 800 o weithfeydd trin dŵr gwastraff, 69 o weithfeydd trin dŵr, 2,300 o orlifoedd storm, a thros 2,500 o orsafoedd pwmpio carthffosiaeth, gyda bron i 3,500 o drwyddedau amgylcheddol yn gysylltiedig â nhw.

**6.** Yn wahanol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill yng Nghymru a Lloegr, mae Dŵr Cymru yn gwmni 'nid-er-elw' ac nid oes ganddo gyfranddalwyr. Ei swyddogaethau llywodraethu corfforaethol yw cyfrifoldeb ei Fwrdd, sydd arno fwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol, a'i Aelodau, tua 50 o unigolion wedi'u penodi yn dilyn proses a gynhaliwyd gan banel dethol aelodaeth annibynnol.

## Pwy sy'n goruchwylio perfformiad Dŵr Cymru?

**7.** CNC sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru yng Nghymru. Mae CNC yn monitro gweithgareddau Dŵr Cymru i leihau'r effaith y mae ei asedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Mae'n gwneud hyn drwy wirio perfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau a chyflwyno cynlluniau gwella amgylcheddol.

**8.** Ofwat (neu'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yw'r rheoleiddiwr economaidd ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'n gweithredu'n annibynnol ar ddiwydiant a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ond o fewn fframwaith polisi a osodwyd gan Weinidogion Cymru a'r DU. Mae ei dyletswyddau'n cynnwys diogelu buddiannau defnyddwyr, sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni eu swyddogaethau statudol, a hyrwyddo gwytnwch cwmnïau dŵr. Mae gan Ofwat ystod o bwerau, gan gynnwys gosod terfynau prisiau a thargedau perfformiad drwy'r broses Adolygiad Prisiau bob pum mlynedd.

**9.** Mae'r ddau reoleiddiwr yn monitro perfformiad Dŵr Cymru ac yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n ei gymharu â gweddill y diwydiant. Os nad yw

perfformiad yn bodloni'r safonau disgwyliedig, mae gan reoleiddwyr ystod o opsiynau gorfodi ar gael iddynt, hyd at, a chan gynnwys erlyniad.

## Yr Adroddiadau perfformiad diweddaraf

**10.** Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddodd CNC ei Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru 2022. Mae'r adroddiad yn dangos bod Dŵr Cymru wedi cyflawni sgôr cwmni cyffredinol o 2 seren, sy'n golygu ei fod yn gwmni “sydd angen gwella”. Mae hyn yn cymharu â sgôr 3 seren yn 2021 a sgôr 4 seren yn 2020.

**11.** Mae’r tabl isod yn crynhoi perfformiad Dŵr Cymru yn 2022.

| **Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol** | **Canlyniad 2022** | **Cymhariaeth gyda pherfformiad y flwyddyn flaenorol** |
|---|---|---|
| Metrig 1: Cyfanswm digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) | **25** (Oren) | Gostwng yn ôl i oren ar ôl cyflawni gwyrdd am ddwy flynedd |
| Metrig 2: Digwyddiadau llygredd difrifol (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) | **5** (Coch) | Gostwng i goch ar ôl bod yn oren y llynedd ac yn wyrdd am 2 flynedd cyn hynny |
| Metrig 3: Hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd (asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) | **69%** (Oren) | Aros yn oren |
| Metrig 4: Cydymffurfio â thrwydded ollwng (rhifol) | **98.5** (Oren) | Aros yn oren |
| Metrig 5: Defnyddio a gwaredu slwtsh yn foddhaol | **100%** (Gwyrdd) | Metrig wedi’i eithrio 2018-2020, metrig gwyrdd cysgodol yn 2021 |
| Metrig 6: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau’r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol | **100%** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Metrig 7: Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw | **100%** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Sgôr seren gyffredinol y cwmni | **2 seren** | Gostwng i 2 seren ar ôl ennill 3 seren yn 2021 a 4 seren am y tro cyntaf yn 2020 |

Allwedd: Statws metrig

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Perfformiad yn well na'r targed |
| Oren | Perfformiad islaw'r targed |
| Coch | Perfformiad ymhell o dan y targed |

Allwedd: Sgôr seren gyffredinol y cwmni

| | |
|---|---|
| 4 seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| 3 seren | Cwmni da |
| 2 seren | Cwmni sydd angen ei wella |
| 1 seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |

(Ffynhonnell: Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru 2022)

**12.** Mae prif negeseuon yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Gwelwyd dirywiad mewn perfformiad yng nghyfanswm y digwyddiadau llygredd carthffosiaeth (categori 1-3), gan ostwng i oren. Cynyddodd nifer y digwyddiadau lygredd tua 7% o'i gymharu â 2021, gyda 89 o ddigwyddiadau (cafodd 84 o'r rhain yn cael eu categoreiddio fel rhai sy'n cael effaith amgylcheddol isel, roedd pump yn cael eu hystyried yn cael effaith amgylcheddol uchel neu arwyddocaol).

- Roedd pum digwyddiad difrifol o lygredd carthffosiaeth (h.y. cael effaith amgylcheddol uchel) yn golygu bod perfformiad ar gyfer y metrig hwn hefyd wedi dirywio, gan ddisgyn o oren i goch; a

- Gwelwyd hefyd ddirywiad ym mherfformiad hunan-gofnodi digwyddiadau llygredd. Arhosodd y metrig hwn yn oren, ond gwelwyd gostyngiad o 7% yn yr hunan-gofnodi o'i gymharu â 2021.

**13.** Yn fuan ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, ysgrifennodd y Pwyllgor at Dŵr Cymru yn mynegi pryder am y dirywiad yn ei berfformiad amgylcheddol. Ymatebodd Dŵr Cymru ar 4 Awst 2023.

**14.** Bob blwyddyn, mae Ofwat yn edrych ar berfformiad yr 17 cwmni dŵr a dŵr gwastraff mwyaf ac yn cynhyrchu Adroddiad Perfformiad y Cwmni Dŵr. Mae'n categoreiddio perfformiad cwmnïau fel 'blaenllaw', 'cymedrol' neu 'ar ei hôl hi' yn erbyn set o fetrigau cyffredin, gan gynnwys digwyddiadau llygredd, gwasanaeth cwsmeriaid a gollyngiadau.

**15.** Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Ofwat ei Adroddiad Cwmni Dŵr ar gyfer 2022-23. Mae'n dangos bod Dŵr Cymru yn un o saith cwmni sydd wedi'u categoreiddio fel 'ar ei hôl hi', gan fodloni dim ond pump o'i 12 targed perfformiad allweddol. Dyma'r ail flwyddyn i Dŵr Cymru fod yn y categori gwaelod.

## Cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad

**16.** Erbyn hyn, mae Ofwat wedi cymryd camau i fynd i'r afael â thaliadau amhriodol yn y sector ar ffurf sy'n seiliedig ar berfformiad. Mae wedi cyflwyno system adennill cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad mewn perthynas â chyflog 2023-34 ymlaen er mwyn sicrhau y bydd cyfranddalwyr, nid cwsmeriaid, yn talu

am fonysau gweithredol cwmni dŵr lle nad ydynt yn bodloni'r disgwyliadau. Mae statws 'nid-er-elw' Dŵr Cymru yn golygu nad oes ganddo gyfranddalwyr.

**17.** Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Dŵr Cymru na fyddai Peter Perry (Prif Swyddog Gweithredol) a Mike Davis (Prif Swyddog Cyllid) yn derbyn cyflog yn seiliedig ar berfformiad ar gyfer 2022-23.

**18.** Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Ofwat ei adroddiad, Diogelu buddiannau cwsmeriaid ar dâl gweithredol ar sail perfformiad: asesiad 2022-23. Mae'r adroddiad yn asesu sut y cafodd cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad a ddyfarnwyd i swyddogion gweithredol cwmnïau dŵr yn ystod 2022-23 ei alinio i ddarparu ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd, a pherfformiad cyffredinol y cwmni. Yn ôl yr adroddiad, llwyddodd Dŵr Cymru i sicrhau aliniad o 80%. Beth bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, ildiodd swyddogion gweithredol y cwmni eu hawl i gyflog sy'n seiliedig ar berfformiad am y flwyddyn honno.

## Cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol i wella perfformiad

**19.** Bob pum mlynedd mae cwmnïau dŵr yn nodi eu cynlluniau ar gyfer faint y byddant yn ei godi ar gwsmeriaid, a'r hyn y byddant yn ei gyflawni, drwy'r 'broses Adolygu Prisiau'.

**20.** Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau dŵr yn gweithredu fel monopolïau, sy'n golygu nad oes gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr unrhyw ddewis o ran darparwr. Felly, mae Ofwat yn gosod terfynau ar brisiau y gall pob cwmni unigol eu codi. Mae'n gwneud hyn drwy graffu ar gynlluniau busnes cwmnïau dŵr, a chydbwyso'r angen am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy â'r buddsoddiad y mae angen i gwmnïau ei wneud, cynnal a gwella seilwaith a bodloni safonau amgylcheddol. Mae'r graddau y mae Ofwat yn cydbwyso'r anghenion hyn yn effeithiol yn destun trafodaeth barhaus. Mae Ofwat wedi cael ei feirniadu am ganolbwyntio ar yr awydd i gadw biliau cwsmeriaid yn isel ar draul buddsoddi mewn seilwaith, sydd ei angen ar fyrder.

**21.** Ym mis Hydref 2023, cyflwynodd Dŵr Cymru ei Gynllun Busnes arfaethedig ar gyfer 2025-2030 i Ofwat fel rhan o'r cynllun presennol. Adolygiad Pris (PR24). Yn ôl Dŵr Cymru, os caiff ei gymeradwyo, bydd ei Gynllun Busnes yn arwain at raglen fuddsoddi fwyaf erioed y cwmni, gwerth £3.5 biliwn dros y pum mlynedd, a fydd yn cyfateb i gynnydd o 68% ar y buddsoddiad yn 2020-2025.

**22.** Ffocws allweddol yn y Cynllun Busnes yw "mabwysiadu dull cydweithredol o leihau ei effaith ar yr amgylchedd, ac yn arbennig chwarae ei rhan wrth helpu i wella ansawdd dŵr afonydd". Mae Dŵr Cymru'n ymrwymo i fuddsoddi bron i £1.9

biliwn yn yr amgylchedd rhwng 2025 a 2030 – 84% yn fwy na 2020-25. Bydd hyn yn cynnwys lleihau'n sylweddol faint o ffosfforws sy'n cael ei ryddhau o brosesau trin dŵr gwastraff i afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a dechrau rhaglen dros sawl AMP i atal ei rwydwaith o 2,300 o orlifoedd storm rhag achosi difrod amgylcheddol i afonydd yn ei ardal weithredu.

**23.** Yn seiliedig ar berfformiad presennol y cwmni (2022/23), ymhlith ei ymrwymiadau eraill erbyn 2030 mae:

- Gwella cydymffurfiaeth dŵr yfed a chwtogi 57% ar y cysylltiadau gan gwsmeriaid ynghylch ansawdd dŵr tap;
- lleihau gollyngiadau ar ei rwydwaith o chwarter (yn erbyn meincnod 2019-20) a helpu cwsmeriaid i atal gollyngiadau yn eu cartrefi a'u busnesau;
- lleihau cyfanswm nifer y digwyddiadau o lygredd 24%;
- gweithio tuag at 'Gymru ddi-blwm' drwy ddisodli pibellau plwm 7,500 o gwsmeriaid;
- cyflawni gwerth £42 miliwn o arbedion ar gostau gweithredu drwy arbedion effeithlonrwydd a dulliau arloesol o weithio;
- cyfrannu £13 miliwn y flwyddyn rhwng 2025-30 er mwyn helpu i gynnal ei gynllun tariffau cymdeithasol a darparu capasiti i gynnydd eu darpariaeth o 133,000 o gwsmeriaid i 190,000 ohonynt.

**24.** Er mwyn ariannu'r rhaglen fuddsoddi, bydd bil misol cyfartalog y cwsmer yn cynyddu £5 yn 2025, a £10 erbyn 2030. Fodd bynnag, mae Dŵr Cymru yn bwriadu cynyddu'r cymorth y mae'n ei ddarparu i gwsmeriaid drwy ei gynlluniau tariff cymdeithasol, gan ddefnyddio cyllid a wnaed yn bosibl gan ei statws 'nid-er-elw'.

## Tystiolaeth gan Dŵr Cymru

**25.** Dywedodd Peter Perry (Dŵr Cymru) wrth y Pwyllgor, y cawsant siom fawr wrth ddisgyn i 2 seren.[1] Eglurodd fod yr israddio yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau llygredd difrifol. Dywedodd, nad yw hyn yn gynnydd enfawr, yn ei farn ef. Nid ydynt am gael dim, a dweud y gwir—Nid ydynt am gael

Cofnod y Trafodion, 5 Tachwedd 2018, paragraff 11[1]

dim o gwbl. Ond pan feddyliwch am 36,000 km o garthffos, i gael pum digwyddiad yno—. Mae'n bump yn ormod, gadewch i mi ddweud yn glir—.[2]

**26.** Tynnodd Peter Perry sylw at y ffaith bod angen ystyried y sychder a'r tymheredd uchel a brofwyd yn 2022 wrth asesu perfformiad llygredd Dŵr Cymru. Eglurodd fel a ganlyn:

> *"During the drought we saw some of the lowest ever river levels in Wales whereby any blockage leading to a sewage spill had a higher impact. Similarly, the lower flows in sewers saw our blockage rate increase by 7% leading to an increased risk of pollution".*[3]

**27.** Dywedodd Steve Wilson (Dŵr Cymru) mai'r broblem o ran rhwystrau yn y yn y rhwydwaith carthffosydd yw prif achos llygredd yng Nghymru o hyd.[4] Nododd ystod o gamau y mae Dŵr Cymru yn eu cymryd i leihau nifer y rhwystrau, gan gynnwys fflysio'r rhwydwaith carthffosydd yn fwy rheolaidd; nodi mannau problemus o ran rhwystrau yn well; a mwy o fonitro. Dywedodd Peter Perry y byddai croeso mawr i wahardd weips er mwyn helpu i leihau nifer y rhwystrau.[5]

**28.** Dywedodd Peter Perry wrth y Pwyllgor mai'r risg fwyaf o ran digwyddiad llygredd yn y dyfodol yw nifer o brif bibellau pwmp carthion strategol yn methu, gan gynnwys Prif Arfordir De-ddwyrain Cymru. Dywedodd fod dros £150 miliwn o fuddsoddi arfaethedig wedi'i gynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau Dŵr Cymru ar gyfer 2025-2030 i fynd i'r afael â hyn.

**29.** Mynegodd Peter Perry siom am y dirywiad ym mherfformiad hunan-adrodd Dŵr Cymru yn 2022. Esboniodd gyda'r amodau sychder a llygredd lefelau isel yr afonydd fod digwyddiadau llygredd yn fwy amlwg ac yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i CNC gan y cyhoedd. Ychwanegodd fod pobl yn ailgysylltu â'u hamgylchedd lleol ers pandemig Covid-19[6] ac felly maent yn fwy tebygol o adrodd am ddigwyddiadau llygredd posibl i CNC.

**30.** Amlinellodd Peter Perry y camau y mae Dŵr Cymru yn eu cymryd i gynyddu ei allu i hunan-adrodd, er enghraifft, defnyddio technoleg newydd fel teledu cylch

Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[2]
[3] Tystiolaeth ysgrifenedig BMA Cymru
Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[4]
Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[5]
Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[6]

cyfyng mewn asedau anghysbell neu ar ddiffygion gwaith trin lle nad yw offer telemetreg safonol yn effeithiol.

**31.** O ran gwella perfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru, dywedodd Peter Perry wrth y Pwyllgor, ei bod yn anelu at ddychwelyd i fod yn gwmni perfformio 3 seren yn 2024 ac y bydd ei gynllun buddsoddi AMP8 [ar gyfer 2025-2030] yn ei galluogi i anelu ymhellach at ddychwelyd i fod yn gwmni 4 seren.[7]

**32.** Wrth sôn am Ofwat yn categoreiddio perfformiad Dŵr Cymru fel 'ar ei hôl hi', dywedodd Peter Perry, nad yw'n gyfforddus o gwbl bod ei berfformiad mewn nifer o feysydd yn ddigonol, a'i fod am sicrhau'r pwyllgor ei fod nid yn unig yn ei gymryd o ddifrif, ond bod ganddo gynlluniau i fynd i'r afael â'r rheini.[8]

**33.** Tynnodd Peter Perry sylw at ansawdd dŵr yfed, ymyrraeth cyflenwad dŵr a llygredd fel rhai o'r meysydd lle nad oedd Dŵr Cymru wedi perfformio yn unol â'i ymrwymiadau. Nododd fod ymyriadau ar y cyflenwad yn un o'i heriau gwirioneddol, gan nodi newidiadau hinsoddol a phrif bibellau dŵr yn dod i ddiwedd eu hoes fel ffactorau sy'n cyfrannu at ymyriadau yng ngorllewin Cymru ym mis Rhagfyr 2022.[9] Eglurodd:

> *"At present, around 45 per cent of our supply interruptions occur on our network in the west, and that's something we've got to seriously address. This isn't just about fixing those mains, this is about replacing that infrastructure. So, we've got a clear plan. As soon as we get the green light from Ofwat for that investment, as part of the price review 2024 process, we will be starting."*[10]

**34.** Pwysleisiodd Peter Perry y bydd ailosod y prif bibellau dŵr yn cymryd amser, "So, getting back to the place that we've been in the past, in terms of performance, is probably going to have a trajectory of at least a couple of year Felly, bydd dychwelyd i lle roeddem yn y gorffennol, o ran perfformiad, yn ôl pob tebyg yn mynd gymryd ychydig flynyddoedd o leiaf.

[7] Tystiolaeth ysgrifenedig BMA Cymru
Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 9 Tachwedd 2023[8]
Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 9 Tachwedd 2023[9]
Cofnod y Trafodion [paragraff 418], 9 Tachwedd 2023[10]

## Tystiolaeth gan y rheoleiddwyr

**35.** Wrth roi sylwadau ar adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol diweddaraf Dŵr Cymru, dywedodd Gareth O'Shea (CNC) nad ydynt yn fodlon ar gwmni perfformio 2 seren, ac nad ydynt yn fodlon ar effaith hynny ar yr amgylchedd yng Nghymru. Ychwanegodd:

> *"Our ambition for [Dŵr Cymru] is clear. We want zero serious pollution incidents. We want more self-reported incidents…We have a tripartite meeting with Ofwat, a regulatory meeting, once a year. We're really clear on our position on that. We get invited to the sub-group of the Dŵr Cymru board, and we're quite challenging in that environment…Now, we seek assurances."*

**36.** Pan ofynnwyd iddo pa gamau y mae CNC yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r dirywiad ym mherfformiad Dŵr Cymru, dywedodd Gareth O'Shea wrth y Pwyllgor fod y broses reoleiddio wedi arwain at fuddsoddiad mwyaf erioed[11] y cwmni yn ei Gynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2025-2030.

**37.** Dywedodd David Black fod perfformiad diweddar Dŵr Cymru yn destun pryder. Eglurodd y bydd Dŵr Cymru yn wynebu addasiadau tanberfformio sy'n lleihau biliau cwsmeriaid lle nad ydynt yn bodloni lefelau gwasanaeth penodol. Ychwanegodd y bydd hefyd yn edrych ar gamau gorfodi, os yw'n meddwl bod eu methiannau yn croesi'r llinell ac yn golygu eu bod yn methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol.[12]

**38.** Dywedodd David Black wrth y Pwyllgor fod ganddynt ddiddordeb mewn rhoi newid ar waith. Mae ganddynt ddiddordeb mewn gweld Dŵr Cymru yn newid ei berfformiad. Nid mater o'i ddwyn i gyfrif yn unig yw hyn; rydym am ei weld yn gwella, rydym am ei weld yn cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd yng Nghymru. Esboniodd ei bod hi'n ofynnol i Dŵr Cymru baratoi cynllun ymrwymiad gwasanaeth i nodi "beth sy'n sbarduno ei fethiannau… ac yna cael Dŵr Cymru i ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion hynny o ran perfformiad.[13]

**39.** Pan ofynnwyd iddo a oes cyfyngiadau ar rôl rheoleiddio a gorfodi Ofwat, o ystyried statws nid-er-elw Dŵr Cymru, dywedodd David Black:

Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 9 Tachwedd 2023[11]
Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[12]
Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[13]

> *"We think the regulatory framework we've got can and does work for Dŵr Cymru, but, equally, like any company, they can get into a situation where they're not performing as they ought to be for customers and the environment, and that's when we'll step in."*[14]

**40.** Dywedodd David Black fod gwahaniaethau rhwng model perchnogaeth er elw a model Dŵr Cymru a bod angen iddyn nhw, fel rheoleiddiwr, fod yn ymwybodol o hynny wrth reoleiddio'r cwmni, a'u bod yn gwneud hynny".[15] Amlygodd y gallu i ailgylchu dychweliadau yn ôl i gwsmeriaid fel budd o statws 'nid-er-elw' Dŵr Cymru ac absenoldeb cyfranddalwyr i yrru perfformiad a dwyn rheolwyr i gyfrif fel 'bwlch'. Ychwanegodd, na ddylai'r model 'nid-er-elw' esgusodi perfformiad gwael ac ni ddylai esgusodi aneffeithlonrwydd.[16]

## Ein barn ni

### Perfformiad cyffredinol

Mae'r pwysau sy'n wynebu cwmnïau dŵr yng Nghymru a gweddill y DU yn adnabyddus: seilwaith hynafol, twf yn y boblogaeth ac effeithiau newid hinsawdd. Serch hynny, mae gan gwmnïau dŵr ddyletswyddau statudol i gyflawni, gofynion rheoleiddio i gadw atynt, ac ymrwymiadau gwasanaeth i'w bodloni. Yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad diweddaraf Dŵr Cymru, mae'n cael trafferth gyda rhai o'r rhain.

O fewn cyfnod o ddwy flynedd mae perfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru, a aseswyd gan CNC, wedi gostwng o sgôr 'arweinydd diwydiant' 4 seren i sgôr 2 seren, gyda'r cwmni yn cael ei ystyried fel un sydd angen ei wella. Nid yn unig hynny, mae ei berfformiad ehangach wedi'i gategoreiddio fel 'ar ei hôl hi' gan Ofwat am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae hyn yn siomedig iawn. Ni ddylai lefel perfformiad presennol Dŵr Cymru ddod yn beth arferol.

Rydym yn nodi bod buddsoddiad arfaethedig Dŵr Cymru ar gyfer 2025-2030 ar y lefel uchaf erioed ac mae'n fwy na dwbl lefel ei raglen fuddsoddi bresennol. Er bod hyn yn galonogol, yn y pen draw Ofwat a gaiff y gair olaf. Mae'r dasg o gydbwyso anghenion ariannol cwsmeriaid yn ystod argyfwng costau byw â'r angen am fuddsoddi mewn seilwaith yn un annymunol. Er nad yw cynnydd mewn biliau cwsmeriaid byth yn cael ei groesawu, mae angen buddsoddi yn y

Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[14]
Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[15]
Cofnod y Trafodion [paragraff 193], 9 Tachwedd 2023[16]

system dŵr a charthffosiaeth ar fyrder. Disgwyliwn i Ofwat chwarae ei ran er mwyn sicrhau bod buddsoddiad digonol ar gael ar gyfer 2025-2030.

Rydym yn ymwybodol y bydd buddsoddiad arfaethedig Dŵr Cymru yn arwain at gynnydd mewn biliau cwsmeriaid, sydd eisoes ymhlith yr uchaf ar draws y sector. Felly, roeddem yn falch o glywed bod y cwmni'n bwriadu cynyddu capasiti ei gynlluniau tariff cymdeithasol er mwyn helpu i liniaru effaith cynnydd biliau ar gwsmeriaid sydd eisoes yn cael trafferth gyda fforddiadwyedd.

Gobeithio y bydd y buddsoddiad arfaethedig yn galluogi gwelliannau mawr eu hangen mewn seilwaith ac, yn y tymor canolig, yn galluogi'r cwmni i fynd i'r afael â heriau parhaus, megis torri ar y cyflenwad, sy'n effeithio ar ei berfformiad cyfredol. Fodd bynnag, disgwyliwn weld gwelliannau mwy uniongyrchol yn llygredd a pherfformiad hunan-adrodd Dŵr Cymru. Byddai unrhyw beth llai na dychwelyd i sgôr 3 seren am ei berfformiad amgylcheddol yn 2024 yn annerbyniol. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi cynllun ymrwymiad gwasanaeth Dŵr Cymru. Hoffem i Dŵr Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at gyflawni'r cynllun.

Rydym yn bwriadu adolygu perfformiad Dŵr Cymru a byddwn yn cynnal sesiwn arall gyda'r cwmni yn ôl yr angen.

## Llygredd

Rydym yn pryderu am y cynnydd mewn digwyddiadau llygredd difrifol, sef un o'r prif resymau dros israddio Dŵr Cymru i sgôr 2 seren. Er gwaethaf honiad Dŵr Cymru nad oedd y cynnydd 'yn enfawr', yn ôl diffiniad, cafodd y digwyddiadau hyn effaith 'fawr' ar yr amgylchedd. Nid yw bychanu'r cynnydd yn ddefnyddiol ac mae ond yn tanseilio honiad Dŵr Cymru nad yw'n hunanfodlon ynghylch ei ddirywiad mewn perfformiad amgylcheddol.

Rydym yn cydnabod bod y sychder a'r tymheredd uchel a gafwyd yn 2022 yn golygu bod digwyddiadau llygredd yn cael effaith amgylcheddol uwch. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwneud y cynnydd yn fater llai pryderus. I'r gwrthwyneb, gwyddom mai dim ond gwaethygu y rhagwelir y bydd effeithiau newid hinsawdd, gan gynyddu'r risg o ddigwyddiadau llygredd difrifol. Byddem yn croesawu esboniad o sut mae Dŵr Cymru yn cynllunio yn erbyn pwysau newid hinsawdd yn y dyfodol i liniaru'r risg hon.

Rydym yn nodi ymrwymiad Dŵr Cymru erbyn 2030 i leihau cyfanswm y digwyddiadau llygredd 24%, gan ddarparu 'targed' o 69 digwyddiad neu lai. Mae diffyg uchelgais i hyn. Dim ond un lefel dderbyniol sydd ar gyfer digwyddiadau

llygredd: sero. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru weithio'n galetach ac yn gyflymach i gyflawni digwyddiadau dim llygredd.

Cafodd tri o'r pum digwyddiad llygredd difrifol yn 2022 eu hachosi gan rwystrau. Rhwystrau yw prif achos digwyddiadau llygredd, gyda weips gwlyb yn cyfrif am y mwyafrif llethol o rwystrau. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y cyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd ar waharddiad arfaethedig ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Rydym yn falch bod cynnydd tuag at waharddiad yn cael ei wneud o'r diwedd. Ar ôl ei weithredu, bydd y gwaharddiad yn helpu i ddileu digwyddiadau llygredd, gan wneud dim digwyddiadau llygredd yn uchelgais gyraeddadwy. Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar yr amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gyfer cyflwyno'r gwaharddiad arfaethedig.

## Y model 'nid-er-elw'

Mae'n bwysig cydnabod bod model 'nid-er-elw' Dŵr Cymru yn ei wahaniaethu rhwng cwmnïau dŵr eraill yng Nghymru a Lloegr, sydd dan berchnogaeth breifat. Mae Dŵr Cymru yn elwa ar beidio â gorfod talu difidendau i gyfranddalwyr. Yn hytrach, gellir defnyddio unrhyw wargedion ariannol i gyflymu buddsoddiad a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer tariffau cymdeithasol. Serch hynny, ni ddylai'r model 'nid-er-elw' ddod yn esgus dros danberfformio.

Er ein bod yn cydnabod nad oes yr un fodel yn berffaith, mae awgrym Ofwat o 'ddiffyg atebolrwydd' sy'n deillio o statws 'nid-er-elw' Dŵr Cymru yn destun pryder. Disgwyliwn weld trefniadau llywodraethu mewnol Dŵr Cymru i fod yn ddigon cadarn i ddwyn swyddogion gweithredol cwmnïau i gyfrif ac i ysgogi gwelliannau mewn perfformiad. Rydym yn ceisio sicrwydd gan Dŵr Cymru ar y mater hwn.

## Cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad

Rydym yn ymwybodol bod cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad yn fater dadleuol ac nid yw'n rhywbeth yr ydym wedi'i ystyried yn fanwl. Fodd bynnag, ni ellir caniatáu i'r arfer o ddyfarnu taliadau bonws i weithredwyr cwmnïau sy'n methu â bodloni eu hymrwymiadau. Ar adeg pan fo aelwydydd yn cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw, ac mae disgwyl i filiau cwsmeriaid godi, nid yw dyfarnu taliadau bonws, sy'n boenus o uchel, i swyddogion gweithredol sy'n tanberfformio yn gwneud dim i adeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sector. Felly, rydym yn falch o weld Ofwat, o'r diwedd, yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, gan gynnwys drwy gyflwyno ei system adennill cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad.

Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r system hon yn berthnasol i Dŵr Cymru, a sut mae'n berthnasol iddo, o ystyried ei statws 'nid-er-elw'. Rydym yn ceisio eglurhad gan Ofwat ar hyn.

Mae canfyddiadau adroddiad Ofwat ar PRP ar gyfer 2022-23 yn ein calonogi, sy'n dangos bod gan Dŵr Cymru aliniad o 80% i'r ddarpariaeth ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd, a pherfformiad cyffredinol y cwmni. Fodd bynnag, mae lle i wella. Hoffem weld gwelliant ym mhwysoliad presennol Dŵr Cymru o'r naill flwyddyn i'r llall, gydag uchelgais i sicrhau aliniad o 100%. Rydym yn cydnabod bod swyddogion gweithredol Dŵr Cymru wedi ildio'u hawl i PRP ar gyfer 2022-23, o ystyried dirywiad perfformiad y cwmni. Mae hwn yn gam pwysig tuag at adeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd yn y cwmni.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai Dŵr Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda diweddariad ar y cynnydd tuag at gyflawni ei gynllun ymrwymiad gwasanaeth sy'n ofynnol gan Ofwat.

**Argymhelliad 2.** Dylai Dŵr Cymru esbonio sut mae'n cynllunio yn erbyn pwysau hinsawdd yn y dyfodol i liniaru'r risg o ddigwyddiadau llygredd difrifol megis y rhai a ddigwyddodd yn ystod y sychder a'r tymheredd uchel a gafwyd yn 2022.

**Argymhelliad 3.** Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i osod targed mwy ymestynnol ar gyfer lleihau achosion o lygredd erbyn 2030 na'r targed presennol o 24%. Dylai hefyd ymrwymo i uchelgais o ddim achosion o lygredd yn yr amser byrraf posibl, gyda thargedau'r dyfodol yn adlewyrchu unrhyw waharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno gwaharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig cyn gynted â phosibl. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y cyd ar waharddiad arfaethedig ac ar yr amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gyfer cyflwyno gwaharddiad yng Nghymru.

**Argymhelliad 5.** Dylai Dŵr Cymru ddarparu manylion ei drefniadau llywodraethu mewnol a dangos sut maent yn cael eu defnyddio i ddwyn swyddogion gweithredol cwmnïau i gyfrif ac i ysgogi gwelliannau perfformiad. Yn benodol, dylai Dŵr Cymru egluro rôl aelodau Glas Cymru o fewn ei strwythur llywodraethu, ymateb yr aelodau i berfformiad diweddar Dŵr Cymru, a'r camau y mae'r aelodau'n eu cymryd i sicrhau gwelliannau.

**Argymhelliad 6.** Dylai Ofwat egluro a yw ei system adennill cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad yn berthnasol i Dŵr Cymru, a sut, o ystyried ei statws 'nid-er-elw'.

**Argymhelliad 7.** Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i wneud gwelliannau o'r naill flwyddyn i'r llall ar ei aliniad presennol o 80% o'r cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad a ddyfarnwyd i weithredwyr cwmnïau gyda pherfformiad cyffredinol yn cael ei ddarparu i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Dylai hefyd ymrwymo i uchelgais i gyflawni aliniad o 100% yn yr amser byrraf posibl.

# 3. Pryder cyhoeddus parhaus ynghylch gollyngiadau carthion

## 'Gollwng carthion heb eu trin yn anghyfreithlon'

**41.** Ar 19 Hydref 2023, adroddwyd bod Dŵr Cymru "cyfaddef ei fod yn gollwng carthion heb eu trin yn anghyfreithlon o ddwsinau o'i weithfeydd prosesu". Gwnaed y dadansoddiad a arweiniodd at yr adroddiad gan yr Athro Peter Hammond o'r ymgyrch Windrush Against Sewage Pollution ('WASP').

**42.** Dangosodd data ar 11 o Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff ('GTDG') Dŵr Cymru, a gafwyd gan yr Athro Hammond drwy geisiadau Rheoliadau Gwybodaeth yr Amgylchedd (EIR) "2,274 diwrnod gydag achosion o dorri trwyddedau yn ymwneud â gollyngiadau carthion heb eu trin rhwng 2018 a 2023. Yn ôl WASP, roedd 77 (3.4%) yn ollyngiadau sych, h.y. dim glaw ar y diwrnod neu'r diwrnod cyn y gollyngiad gyda llif gwaith trin uwchlaw'r capasiti, ac roedd y 2,197 (96.6%) a oedd yn weddill yn arllwysiadau cynnar, h.y. roedd llif y gwaith trin yn islaw'r capasiti rywbryd yn ystod y gollyngiad. Roedd y data hefyd yn dangos nifer y diwrnodau gyda gollyngiadau anghyfreithlon yn gostwng bob blwyddyn 10% i 20%, ac eithrio Abererch, a gynyddodd yn 2022, ac Aberteifi. Eglurodd yr Athro Hammond fod Aberteifi yn arbennig o wael, gan ollwng am fwy na 200 diwrnod bob blwyddyn rhwng 2019-2022, gan gyfeirio ato fel y "safle gwaethaf dwi erioed wedi dod ar ei draws o ran gollyngiadau anghyfreithlon".

**43.** Gwnaeth Dŵr Cymru a CNC ryddhau datganiadau mewn ymateb i'r adroddiadau yn y cyfryngau.

**44.** Ar 24 Hydref 2023, adroddwyd bod Dŵr Cymru wedi torri ei drwyddedau dros 200 o weithiau yn ystod y chwe blynedd diwethaf, ond dim ond dwywaith y cafodd ddirwy. Mewn ymateb, cyfaddefodd Dŵr Cymru fod ganddo rhwng 40 a 50 o weithfeydd trin dŵr gwastraff yn gweithredu yn groes i'w trwyddedau ar hyn o bryd.

## Camau gweithredu parhaus i leihau effaith gorlifoedd storm

**45.** Ym mis Mehefin 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru ('y Tasglu'), y mae ei aelodau'n cynnwys cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru, CNC ac Ofwat. Rôl y Tasglu yw gwerthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd storm yng Nghymru a datblygu cynlluniau ar gyfer newid a gwella. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Tasglu

gynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r pum maes a nodwyd bod angen cymryd camau ychwanegol.

**46.** Yn unol â'r cynlluniau gweithredu, ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd CNC ganllawiau newydd a llymach i gwmnïau dŵr yng Nghymru ynghylch o dan ba amodau y mae'n dderbyniol i orlif storm ollwng. Cyhoeddodd hefyd ganllawiau ar orlifoedd nas caniateir, gan gynnwys y camau y mae'n rhaid i gwmnïau dŵr eu cymryd i hysbysu CNC am orlifoedd sydd newydd eu nodi a gorlifoedd nas caniateir.

**47.** Yn yr un mis, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Adroddiad Gorlifoedd Storm yng Nghymru (a elwir hefyd yn 'adroddiad Stantec'). Mae'r adroddiad yn cymharu costau a buddion gwahanol opsiynau polisi ar gyfer rheoleiddio gorlifoedd storm. Nodir mai dull presennol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r gorlifoedd storm hynny sy'n achosi niwed amgylcheddol yw'r rhai mwyaf fforddiadwy, gydag amcangyfrif cost o rhwng £1.5 biliwn a £2.7 biliwn. Yn ôl yr adroddiad, byddai hyn yn ychwanegu rhwng £30 a £90 yn barhaol at fil dŵr cartref nodweddiadol.

**48.** Wrth groesawu cyhoeddi adroddiad Stantec, dywedodd y Tasglu:

> *"Er mwyn cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer rheoli gorlifoedd, nid oes yr un ateb tymor byr; Mae angen inni edrych tua'r dyfodol. Byddwn nawr yn ystyried yn ofalus yr opsiynau er mwyn llunio'r camau nesaf priodol, gan gynnwys sut y gallai'r opsiynau gyd-fynd â'r cynlluniau busnes arfaethedig ar gyfer 2025–30 a gyflwynwyd gan gwmnïau dŵr i Ofwat ar 2 Hydref.."*[17]

**49.** Mewn llythyr i'r Pwyllgor, dyddiedig 18 Rhagfyr 2023, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fod y Tasglu yn adolygu adroddiad Stantec "gyda golwg ar ddatblygu rhaglen tymor byr, tymor canolig a hirdymor fforddiadwy a chyraeddadwy e i atal niwed ecolegol i ddyfroedd ein hafonydd". Ychwanegodd, "Bydd y rhaglen a'r blaenoriaethau yn cael eu rhannu'n ehangach maes o law".

[17] Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi'r Adroddiad Tystiolaeth ar Orlifoedd Storm yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 26 Hydref 2023

## Tystiolaeth gan gyfranwyr

### GTDG Aberteifi

**50.** Wrth sôn am GTDG, Aberteifi, dywedodd Peter Perry wrth y Pwyllgor fod y sefyllfa yn Aberteifi yn anarferol, oherwydd nid mater o lif sy'n dod i mewn i'r gwaith o isadeiledd yw hwn; ymdreiddiad dŵr hallt o'r môr i'r rhwydwaith o amgylch Aberteifi yw hwn.[18] Mae hyn yn effeithio ar y broses drin a gall olygu nad yw'r safle yn meddu ar y capasiti sydd ei angen i ddelio â dŵr gwastraff yn mynd i mewn i GTDG, a all achosi gorlifoedd storm i ollwng mwy nag y dylent.

**51.** Pwysleisiodd Peter Perry fod Dŵr Cymru wedi dechrau'r broses reoleiddio briodol drwy roi gwybod i CNC am broblemau yn GTDG Aberteifi cyn gynted ag y daethom yn ymwybodol ohonynt.[19] Cadarnhawyd hyn gan Gareth O'Shea.

**52.** Crynhodd Peter Perry a Gareth O'Shea y camau a gymerwyd gan Dŵr Cymru a CNC mewn perthynas â GTDG Aberteifi o'r adeg y nodwyd y problemau hyd at fis Hydref 2023. Dywedodd Peter Perry wrth y Pwyllgor:

> *"This is a complex process; it's a live treatment works. But, all the way through, we've agreed a series of actions with Natural Resources Wales in an attempt, as soon as we knew, to try and fix this. I want to emphasise that. We haven't been complacent about it. It's taken some time, but these things do…"*[20]

**53.** Eglurodd Peter Perry a Gareth O'Shea, er gwaethaf i Dŵr Cymru gydymffurfio â hysbysiadau gorfodi a chymryd y camau unioni gofynnol, daeth yn amlwg nad oedd modd datrys y problemau ar y safle. Cytunwyd felly y byddai angen ailosod y GTDW. Dywedodd Peter Perry fod Dŵr Cymru yn buddsoddi £20 miliwn yn y gwaith ailadeiladu, gan ddechrau yn 2025.

**54.** Pan ofynnwyd iddo pam ei bod wedi cymryd cyhyd i nodi datrysiad priodol, dywedodd Gareth O'Shea, ei fod yn safle cymhleth. Roeddent o'r farn y byddai'r hysbysiadau… wedi datrys y broblem, ond yn amlwg nid oeddent wedi gwneud hynny. Ond gwnaethant barhau drwy'r system honno oherwydd roeddent yn credu mai dyma'r ffordd orau o sicrhau'r canlyniad.[21] Ychwanegodd fod y broses reoleiddio a gorfodi wedi gweithio wrth fuddsoddi yn y system, ac y bydd y gwaith

Cofnod y Trafodion [paragraff 418], 9 Tachwedd 2023[18]
Cofnod y Trafodion [paragraff 161], 9 Tachwedd 2023[19]
Cofnod y Trafodion [paragraff 161], 9 Tachwedd 2023[20]
Cofnod y Trafodion [paragraff 161], 9 Tachwedd 2023[21]

yn cael ei ddarparu.[22] Eglurodd Gareth O'Shea nad oedd CNC wedi dewis erlyn ar y ffactorau sydd ar gael iddo ac ar y ffaith ei fod yn credu bod yr opsiynau gorfodi a ddefnyddiwyd oedd y ffordd orau o sicrhau'r canlyniad gorau i'r amgylchedd yng Nghymru.[23]

## Achosion ehangach o dorri trwyddedau

**55.** Dywedodd Peter Perry wrth y Pwyllgor bod gan Dŵr Cymru gyfanswm o 3,500 o drwyddedau, felly mae'r 200 o achosion o dorri trwyddedau yn cynrychioli tua 6%. Ychwanegodd:

> *"With that number of permits, with 36,000 km of sewers, 830 sewage works, 2,500 pumping stations and 2,300 CSOs, it's inevitable, with an imperfect infrastructure, you're going to find things. But we've always had a policy of being totally open and transparent. When we find those problems, we flag them. We then work with Natural Resources Wales to prioritise fixing them."*[24]

**56.** O ran y 40 i 50 o safleoedd sydd wrthi'n gweithredu'n groes i'w trwyddedau, esboniodd Peter Perry:

> *"… we will get to a point where somewhere between 15 and 20 is all that will be left by 2025, but we have investment to tackle those early in the next regulatory period from 2025 onwards. So, we've got funding to fix nearly half of them; the other half we will fix. And the reason I say this is that some of these will involve complex civil engineering work. This isn't just a simple fix. This is where we will have to construct major civil engineering activity."*[25]

**57.** Ychwanegodd fod y lleill yn ymwneud â'i orlifoedd carthion cyfun nas caniateir ac, ar y cyfan, y bydd yn gweithio drwy'r broses honno yn ystod y cyfnod rheoleiddio nesaf.[26]

Cofnod y Trafodion [paragraff 159], 9 Tachwedd 2023[22]
Cofnod y Trafodion [paragraff 159], 9 Tachwedd 2023[23]
Cofnod y Trafodion [paragraff 362], 9 Tachwedd 2023[24]
Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 9 Tachwedd 202[25]
Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 9 Tachwedd 2023[26]

## Dull gorfodi CNC

**58.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig atodol, tynnodd CNC sylw at yr ystod o arfau gorfodi sydd ar gael i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol, gan gynnwys cyngor, hysbysiadau rhybuddio, hysbysiadau gorfodi, ac erlyniad. Eglurodd fod yr arf gorfodi a ddewisir "yn dibynnu ar ddifrifoldeb a natur y drosedd, yn ogystal â pharodrwydd y troseddwr i gydymffurfio â gofynion rheoliadol". Dywedodd CNC am droseddau mân neu anfwriadol, "efallai y byddwn yn teimlo bod ceisio addysgu neu ddefnyddio dulliau llai ffurfiol yn fwy buddiol", er enghraifft, cyngor ac arweiniad. Fodd bynnag, ychwanegodd y canlynol:

> *"Mae CNC yn gwbl ymrwymedig i ddefnyddio erlyniad ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol ar draws yr ystod o droseddau yr ydym yn eu rheoleiddio. Byddwn yn mynd â chwmnïau neu unigolion i'r llys os yw arfau gorfodi eraill wedi bod yn aneffeithiol neu os yw'r drosedd yn arbennig o ddifrifol ac yn fater o ddiddordeb cyhoeddus."*

**59.** Esboniodd Gareth O'Shea y byddai dirwyon yn deillio o erlyniad yn dychwelyd i Drysorlys EF yn hytrach na dychwelyd i'r broblem amgylcheddol ar lawr gwlad.[27] Dywedodd Peter Perry fod y defnydd o ddirwyon mynd â chyllid mawr ei angen oddi ar y cwmni y gellid ei fuddsoddi fel arall i wella seilwaith. Fel cwmni heb gyfranddalwyr, does dim ffynhonnell incwm arall i dalu costau o'r fath.[28]

**60.** Esboniodd Peter Perry a Gareth O'Shea, yn wahanol i Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, mai dim ond ymrwymiadau amgylcheddol y mae CNC yn gallu eu derbyn[29] mewn amgylchiadau cyfyngedig (h.y. am drosedd a gyflawnwyd o dan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975 sy'n arwain at ladd pysgod). Dywedodd Peter Perry:

> *"This leaves NRW with only prosecution as a last resort, over and above a warning letter or caution, with all fines going to the UK*

Cofnod y Trafodion [paragraff 195], 9 Tachwedd 2023[27]

[28] Tystiolaeth ysgrifenedig BMA Cymru

[29] Ymrwymiad amgylcheddol yw ymrwymiad i fynd i'r afael â'r ymddygiad sy'n achosi'r toriad mewn cyfraith amgylcheddol; cywiro canlyniadau unrhyw doriad neu adfer y sefyllfa, e.e. ariannu eNGO amgylcheddol i wella'r amgylchedd fel ffordd o "wrthbwyso" y niwed a achosir gan y digwyddiad; neu gynnig iawndal i'r rhai y mae'r digwyddiad yn effeithio arnynt.

> *Treasury as opposed to being used on environmental betterment in Wales."*[30]

**61.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig atodol, dywedodd CNC wrth y Pwyllgor:

> *"Ar hyn o bryd, dim ond pwerau cyfyngedig sydd gan CNC mewn perthynas â sancsiynau sifil a byddai'n awyddus i gydweithio ymhellach gyda Llywodraeth Cymru ar gyfleoedd i gyflwyno sancsiynau sifil ychwanegol ar gyfer gweithgareddau gyda thrwyddedau amgylcheddol."*[31]

## Lleihau effaith systemau gorlif storm

**62.** Eglurodd Peter Perry fod Dŵr Cymru wedi dechrau rhaglen waith i leihau effaith ecolegol gorlifoedd storm. Ychwanegodd:

> *"The first stage of this programme, assessing the impact of our storm overflows, is underway in the current investment programme with around 800 storm overflows scheduled for investigation. The remaining assessments will be completed in the next investment programme. The results of the first 253 assessments on frequently spilling storm overflows confirms our view that spill frequency on its own is a poor indicator of impact."*[32]

**63.** Dywedodd Peter Perry fod y drefn lle cafodd gorlifoedd storm eu gwella yn seiliedig ar eu heffaith ecolegol a sensitifrwydd amgylcheddol y corff dŵr derbyn. Bwriedir buddsoddi yn y gorlifoedd storm gyda'r effaith fwyaf sy'n gollwng i'r ardaloedd mwyaf sensitif cyn gynted â phosibl yn y rhaglen a bydd y rhai sydd ag effaith is yn cael eu gwella yng nghyfnodau'r Cynllun Rheoli Asedau olynol.

**64.** Dywedodd Peter Perry yng Nghynllun Busnes Dŵr Cymru ar gyfer 2025-30 ei fod wedi treblu'r swm a fuddsoddir mewn gorlifoedd storm i dros £350 miliwn, o'i gymharu â'r cyfnod presennol.[33] Dywedodd hefyd y bydd ei raglen fuddsoddi yn sicrhau y bydd wedi lleihau effaith ei holl orlifoedd storm i ddim / isel iawn erbyn 2040.[34]

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig BMA Cymru
Tystiolaeth ysgrifenedig, PR117 Cyfoeth Naturiol Cymru[31]
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig BMA Cymru
Cofnod y Trafodion [paragraff[33] 150], 9 Tachwedd 2023
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig BMA Cymru

**65.** Cyfeiriodd David Black at ollyngiadau carthion o orlifoedd storm fel mater cymhleth a heriol.[35] Ychwanegodd:

> *"I think the sector's been slow to respond, so it's been overly complacent, and I don't think there's been enough urgency in addressing the issues; I think that's starting to change, but there's still a long way to go."*[36]

## Ein barn ni

Ym mis Mawrth 2020, gwnaethom gyhoeddi ein *Hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru*. Roedd yn cynnwys cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru, cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr gyda'r nod o wella tryloywder ynghylch gollyngiadau carthion o orlifoedd storm a lleihau eu heffaith. Yn gyffredinol, ymatebodd cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr yn gadarnhaol i'n hargymhellion.

Ers ein hadroddiad, mae gwaith ar orlifoedd storm wedi bod yn mynd rhagddo gyda chyhoeddi a chyflawni cynlluniau gweithredu'r Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd, a chyhoeddi adroddiad Stantec. Mae arwyddion calonogol bod gorlifoedd storm yn cael y sylw y maent yn ei haeddu o'r diwedd. Fodd bynnag, mae sylw diweddar yn y cyfryngau ynghylch 'gollwng carthion yn anghyfreithlon', yn enwedig o GTDG Aberteifi, wedi dod â gorlifoedd storm i'r amlwg unwaith eto ac, yn naturiol, mae wedi arwain at feirniadaeth o Dŵr Cymru a CNC.

Yn achos Aberteifi, gwnaeth GTDG Aberteifi, Dŵr Cymru a CNC roi sicrwydd i ni eu bod wedi bod yn gweithio i ddatrys y broblem ers iddi gael ei ddarganfod gyntaf gan Dŵr Cymru dros wyth mlynedd yn ôl. Dim ond yn ddiweddarach y gwnaed y penderfyniad i ailadeiladu'r GTDG fel ateb parhaol. Rydym yn cydnabod y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth yr achos hwn. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu a oedd Dŵr Cymru a CNC wedi ymateb mor gyflym ag y gallent fod fel arall, a ohiriodd cytundeb datrysiad parhaol. Os caiff yr ailadeiladu ei gyflawni ar amser (Ebrill 2027), bydd wedi cymryd ymhell dros ddegawd i ddatrys y broblem hon yn llawn. Nid yw'r sefyllfa hon yn foddhaol o bell ffordd.

Yn ein Hadroddiad ar orlifoedd storm yng Nghymru, daethom i'r casgliad bod hyder y cyhoedd yn y drefn reoleiddio a gorfodi bresennol yn isel. Mae'r adroddiadau diweddar yn y cyfryngau ar ollyngiadau carthion yn awgrymu nad oes llawer wedi newid ers hynny. Canfyddiad y cyhoedd yw bod Dŵr Cymru yn

Cofnod y Trafodion [paragraff 340], 9 Tachwedd 2023[35]
Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 9 Tachwedd 2023[36]

hunanfodlon ynghylch gollyngiadau carthion a bod CNC yn amharod i gymryd camau gorfodi cryf yn erbyn torri trwyddedau. Mae yna ymdeimlad clir bod Dŵr Cymru yn gweithredu heb gael ei gosbi i bob golwg. Ni fydd yn hawdd meithrin hyder y cyhoedd, ond mae'n hanfodol.

Y dull presennol o fynd i'r afael â gollyngiadau carthion o orlifoedd storm yw blaenoriaethu dileu niwed amgylcheddol yn hytrach na lleihau amlder gollyngiadau. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth nad yw amlder gollyngiadau yn ddangosydd dibynadwy o niwed amgylcheddol. Mae'r dull gweithredu yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gweithredu effeithiol i wella ansawdd dŵr a fforddiadwyedd. Rydym yn cydnabod y bydd y dull hwn yn cymryd amser i gyflawni canlyniadau ac, fel y gwelir yn adroddiad Stantec, bydd angen buddsoddiad sylweddol, hirdymor. Yn y pen draw, bydd costau'n cael eu talu gan gwsmeriaid drwy gynyddu biliau. Felly, mae ennyn cefnogaeth y cyhoedd yn hanfodol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r cyhoedd ddeall a derbyn y dull gweithredu. Nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn wir ar hyn o bryd. Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol gymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

Ni fydd asesiadau ecolegol Dŵr Cymru o orlifoedd storm yn cael eu cwblhau ers sawl blwyddyn, a bydd hi'n 2040 cyn i niwed amgylcheddol o'i orlifoedd storm gael ei ddileu. Bydd y cyhoedd yn bryderus nad yw cynnydd yn digwydd yn ddigon cyflym, a hynny'n gwbl briodol. Mae angen i Dŵr Cymru roi sicrwydd i'r cyhoedd bod ei gynnydd wedi'i gynllunio a'i fod yn fwriadol, a bydd yn cyflawni'r canlyniadau y maent yn eu disgwyl. Bydd hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd.

## Gorfodi

Rydym yn croesawu esboniad manwl gan CNC o’i ddull gorfodi. Rydym yn ymwybodol bod CNC wedi cael ei feirniadu am ei ddull blaengar a'i amharodrwydd ymddangosiadol i erlyn Dŵr Cymru am dorri trwyddedau. Er bod erlyniad ar gael i CNC, a hynny’n gwbl briodol, nid ydym yn credu y dylid ei ystyried fel y canlyniad terfynol.

Mae'n hanfodol bod yr ystod lawn o opsiynau gorfodi ar gael i CNC fynd i'r afael ag achosion o dorri trwyddedau a gwella canlyniadau amgylcheddol. Nodwn, ar hyn o bryd, nad yw CNC yn gallu derbyn ymrwymiadau amgylcheddol am dorri rheolau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ('Rheoliadau 2016'), yn wahanol i Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Yn yr amgylchiadau cywir, gall ymrwymiadau amgylcheddol gynnig dewis arall hyfyw

yn lle erlyniad, yn dibynnu ar y drosedd a'r niwed a achoswyd. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn.

O ystyried y broses hirfaith o gyrraedd datrysiad parhaol i'r materion yn GTDG Aberteifi, credwn y dylai CNC adolygu ei ymateb rheoleiddio a gorfodi gyda'r nod o ddysgu gwersi.

### Lleddfu pwysau ar y system garthffosiaeth

Rydym yn ailadrodd y farn a fynegwyd gennym yn ein Hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru y bydd rheoli'r galw ar y system garthffosiaeth, ac annog defnydd mwy effeithlon o ddraeniau a charthffosydd, yn hanfodol i leihau gollyngiadau carthion. Bydd hyn yn gofyn am ystyriaethau traws-sector, gan gynnwys ymyriadau wrth gynllunio i fynd i'r afael yn well ag 'ymgripiad trefol'.

Byddem yn croesawu diweddariad gan y Gweinidog ar y camau a gymerwyd i leddfu'r pwysau ar y system garthffosiaeth ers ein hadroddiad. Dylai hyn gynnwys cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion sy'n codi o'r adolygiad o Systemau Draenio Cynaliadwy.

## Argymhellion

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol, gan gynnwys Dŵr Cymru, nodi ffyrdd o gyfathrebu'n effeithiol ddull Cymru o fynd i'r afael â gollyngiadau charthion o orlifoedd storm er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r dull.

**Argymhelliad 9.** Dylai Dŵr Cymru gyhoeddi manylion ei raglen waith i fynd i'r afael â gollyngiadau carthion o orlifoedd storm yn y tymor byr, canolig a hir. Dylai hyn gynnwys targedau uchelgeisiol ar gyfer cwblhau asesiadau ecolegol a dileu niwed amgylcheddol o orlifoedd storm a ganiateir a gollyngiadau nas caniateir. Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau ar gynnydd tuag at gyflawni yn gyson.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn pwerau gorfodi CNC er mwyn galluogi'r rheoleiddiwr i dderbyn ymrwymiadau amgylcheddol am dorri amodau trwyddedau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ei hystyriaeth.

**Argymhelliad 11.** Dylai CNC adolygu ei ymateb rheoleiddiol ac amgylcheddol i'r materion yng ngweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi gyda'r nod o ddysgu gwersi. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad.

**Argymhelliad 12.** Dylai’r Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd i leddfu’r pwysau ar y system garthffosiaeth ers cyhoeddi Adroddiad y Pwyllgor ar orlifoedd stormydd yng Nghymru (Mawrth 2022). Dylai hyn gynnwys cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion sy'n codi o'r adolygiad o Systemau Draenio Cynaliadwy.

# Atodiad 1: Sesiwn dystiolaeth lafar

Darparodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o sesiynau tystiolaeth lafar a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **9 Tachwedd 2023** | **Peter Perry,**<br>Dŵr Cymru<br>**Mike Davis,**<br>Dŵr Cymru<br>**Steve Wilson,**<br>Dŵr Cymru<br>**Gareth O'Shea,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Mark Squire,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**David Black,**<br>Ofwat<br>**Gwenllian Roberts,**<br>Ofwat |